



Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Date / Dyddiad: 02/08/19

Subject / Pwnc: Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Gwaith Craffu Cyfnod 1 ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

Gwybodaeth Gefndir am Gomisiynydd Plant Cymru

Prif nod Comisiynydd Plant Cymru yw diogelu a hybu hawliau a lles plant. Wrth ymarfer ei swyddogaethau, mae'n rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae cylch gorchwyl y Comisiynydd yn cwmpasu holl feysydd pwerau datganoledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n effeithio ar hawliau a lles plant.

Cytuniad hawliau dynol rhyngwladol yw CCUHP sy'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu CCUHP yn sylfaen ar gyfer yr holl bolisiau sy'n cael eu llunio ar gyfer plant a phobl ifanc, ac mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth ymarfer eu swyddogaethau, i roi 'sylw dyledus' i CCUHP.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Negeseuon allweddol

- Bydd y Bil hwn yn alinio rhai o'r anghysondebau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, ac rwy'n croesawu'r symudiad hwn tuag at iechyd a gofal cymdeithasol sy'n fwy di-fwlch.
- Rwy'n falch bod Corff cenedlaethol Llais y Dinesydd i gael ei sefydlu, ac y bydd pobl ifanc o dan 18 oed yn gallu cael mynediad at gefnogaeth i gyflwyno cwynion am y GIG. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfarwyddyd yn y Bil hwn i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynrychioli a'u cynnwys yng ngwaith Corff newydd Llais y Dinesydd, yn ymgysylltu ag ef, ac yn ei gydgyhyrchu.
- Mae'r Bil hwn yn colli cyfle i egluro a ffurfioli cynnig eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ar draws meysydd iechyd a gofal cymdeithasol.

Cyflwyniad

Mae egwyddor alinio dyletswyddau iechyd a gofal cymdeithasol, fel sy'n cael ei gyflwyno yn y Bil hwn, i'w groesawu. Mae'r Bil yn darparu peth ymateb i'r Adolygiad Seneddol¹ oedd yn galw am wasanaethau person-ganolog a di-fwlch, ac mae'n cyd-fynd ag uchelgeisiau Llywodraeth Cymru yn ei dogfen strategaeth 10 mlynedd, *Cymru Iachach*².

Yn gyffredinol, bydd y Bil hwn yn darparu'r fframwaith ar gyfer system iechyd a gofal cymdeithasol mwy cydlynus i'r defnyddiwr gwasanaeth, ac mae angen dybryd am hynny. Mae gwaith achosion a wnaed gan fy nhîm ymchwiliadau a chynghor, ynghyd â sgysiau gyda gweithwyr proffesiynol, yn darparu tystiolaeth o sefyllfaoedd lle mae plant a phobl ifanc wedi 'syrthio trwy'r bylchau', a chael eu gadael heb y gofal a'r gefnogaeth angenrheidiol, gyda iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn dadlau uwch eu pennau ynghylch pwy sy'n gyfrifol am eu gofal. Un enghraifft o hyn oedd person ifanc oedd yn arddangos ymddygiad a phroblemau iechyd meddwl oedd yn destun pryder mawr ac a gafodd ei gadw, yn dilyn digwyddiad lle gwelwyd ymddygiad ymosodol a lle bu'n rhaid galw'r heddlu, ar wardiau anaddas gydag oedolion, a than oruchwyliaeth staff asiantaeth am wythnosau. Bu rhywfaint o anghytuno ynghylch ai gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol ddylai fod yn bennaf gyfrifol am ofal y person ifanc yma, ac mae'r person ifanc dan sylw wedi bod yn boenus o ymwybodol o hynny, ac yn anhapus am ei lefel ei hun o ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau.

¹ <https://gweddi.gov.wales/docs/dhss/publications/180116reviewen.pdf>

² <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-04/a-healthier-wales-our-plan-for-health-and-social-care.pdf>

Ceir manylion yr astudiaeth achos hwn, ochr yn ochr ag eraill, mewn [llythyr](#) at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Nid achos ynysig yw hwn, fel mae'r llythyr hwnnw'n dangos.

Yn bwysig, *gallai* Corff newydd Llais y Dinesydd a gynigir yn y Bil ddarparu fforwm ar gyfer ymgysylltu, cyfranogi a chydgyhyrchu â phobl ifanc, sydd ar goll o strwythur presennol y Cynghorau Iechyd Cymuned (CICau). Fodd bynnag, gan na cheir manylion ynghylch sut sicheir bod Corff Llais y Dinesydd yn cynrychioli'r boblogaeth, mae'n anodd gwneud sylwadau ynghylch i ba raddau y gallai fod yn effeithiol.

Nid yw'r Bil ei hun na'r memorandwm esboniadol yn rhoi cyfarwyddyd clir ynghylch gallu plant a phobl ifanc i gyfrannu at waith Corff Llais y Dinesydd, ac nid oes fawr ddim manylion ynghylch mynediad plant a phobl ifanc at gyngor a chymorth ynghylch cwynion. Er fy mod yn rhagdybio bod defnyddio 'unrhyw unigolyn' yn cynnwys plant a phobl ifanc, fe hoffwn i weld hynny'n cael ei egluro'n fwy penodol yn y Bil, gan ei fod yn hanfodol bwysig bod plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i ymgysylltu â'r Corff newydd a defnyddio'i wasanaethau. Yn fy mhrofiad i, nid yw cyrff cyhoeddus bob amser yn ystyried rôl pobl ifanc o dan 18 oed wrth gynllunio sut mae cynnwys cleifion neu ddinasyddion.

Eiriolaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae'r Bil hwn yn gyfle i egluro'r sefyllfa o ran cynnig eiriolaeth i blant sy'n cyrchu gwasanaethau iechyd. Fodd bynnag, mae wedi methu â manteisio ar y cyfle hwn. Yr hyn sy'n cael ei gynnig yn y Bil hwn yw gwasanaeth cyngor a chymorth cyfyng ar gyfer cwynion, na fydd ar gael i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru (gan fod y rhai sy'n gymwys i dderbyn eiriolaeth annibynnol statudol trwy eu hymwneud â gwasanaethau cymdeithasol wedi'u heithrio o'r ddeddfwriaeth hon). Mae'n eglur i mi y dylai plant a phobl ifanc sy'n cyrchu gwasanaethau iechyd, ond nad ydynt yn gymwys ar gyfer eiriolaeth annibynnol statudol trwy eu hymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol, neu fel claf iechyd meddwl cymwys, fedru cael mynediad at eiriolwr trwy'r corff hwn os yw eu pryder yn ymwneud â materion iechyd.

Yn ddelfrydol, ni ddylai fod gan berson ifanc fwy nag un eiriolwr, ond dylai'r eiriolwr hwnnw gwmpasu holl anghenion y person ifanc dan sylw ar draws amrywiol asiantaethau. Byddwn i wedi hoffi gweld y Bil hwn yn sefydlu gwasanaeth oedd yn darparu eiriolaeth i blant a phobl ifanc gan gwmpasu eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol, i'r graddau yr oedd hynny'n bosibl.

Rwy'n dymuno cyflwyno cyfres o ganlyniadau y byddwn i'n disgwyl i Lywodraeth Cymru fod yn gweithio tuag atynt mewn perthynas â darparu eiriolaeth ar draws iechyd a gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Byddwn i'n disgwyl i'r canlyniadau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol gynnwys y canlynol:

- Gwasanaeth sy'n cynnig eiriolaeth wyneb yn wyneb i unrhyw blentyn neu berson ifanc sydd angen hynny er mwyn bod yn rhan o benderfyniadau ynghylch eu hachos eu hunain a deall y driniaeth sy'n cael ei chynnig iddyn nhw
- Gwasanaeth sy'n cynnig eiriolaeth wyneb yn wyneb, gan gydnabod rhwystrau ychwanegol mae pobl ifanc yn eu hwynebu, fel iaith neu anabled
- Hysbysebu gwasanaethau eiriolaeth ar draws lleoliadau iechyd sy'n cael eu defnyddio gan blant a phobl ifanc, mewn fformat sy'n hwylus i blant
- Gwasanaeth sy'n cadw at egwyddorion eiriolaeth broffesiynol annibynnol
- Gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd am gyflwyno cwynion

Mae'n bwysig pwysleisio yma nad ymwneud â chwynion yn unig y mae eiriolaeth, ond mae'r ddealltwriaeth honno'n mynd ar goll yn rhy aml wrth drafod darpariaethau ar gyfer eiriolaeth. Adlewyrchwyd hyn yn fy Seminar Iechyd Plant yn ddiweddar, lle roedd cynrychiolwyr o holl fyrddau iechyd Cymru yn bresennol, a lle lluniwyd rhestr o egwyddorion craidd ar gyfer eiriolaeth lle pwysleisiwyd yr angen am wasanaeth eiriolaeth cyfannol gan lawer. Fodd bynnag, mae Rhan 4 o'r Ddeddf fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd yn nodi'n eglur mai mewn perthynas â chwynion yn unig y mae eiriolaeth yn cael ei darparu.

Dyma rai enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gallai fod angen eiriolwr ar blant neu bobl ifanc:

- Wrth wneud penderfyniadau am bontio i wasanaethau oedolion
- Wrth wynebu penderfyniad am fath o driniaeth bosibl
- Pan fydd eu cynllun gofal yn cael ei ddatblygu
- Pan fydd ganddyn nhw farn wahanol i'w rhieni neu eu gofalwyr
- Pan fydd eu rhieni neu eu gofalwyr yn analluog neu'n amharod i hwyluso eu hymwneud â phenderfyniadau

Mae'r eiriolaeth sy'n cael ei darparu mewn lleoliadau iechyd ar hyn o bryd yn ddarniog ar draws byrddau iechyd Cymru, ac yn amrywio o fyrddau iechyd sy'n cynnig y ddarpariaeth statudol yn unig o dan ddeddfwriaeth Iechyd Meddwl, rhai sy'n cynnig darpariaeth eiriolaeth ad-hoc y tu hwnt i iechyd meddwl yn unig, a gwasanaethau eiriolaeth mwy sefydledig a gomisiynwyd.

Bu problemau hanesyddol hefyd gydag eiriolaeth ym maes gofal cymdeithasol, gyda gwahanol awdurdodau lleol yn comisiynu gwahanol lefelau o ddarpariaeth eiriolaeth gan nad oes cysondeb yn yr ymarfer comisiynu ar draws Cymru. Ers hynny, aed i'r afael â hyn trwy gyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a sefydlu Dull Cenedlaethol o Ymdrin ag Eiriolaeth Statudol ledled Cymru, gan gynnwys Cynnig Gweithredol ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth. Roedd hwn yn ddarn sylweddol o waith gydag awdurdodau lleol, y Llywodraeth a rhanddeiliaid trydydd sector, gan gynnwys fy swyddfa innau, i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn comisiynu ac yn cynnig yr un lefel o eiriolaeth a chefnogaeth i'r bobl ifanc oedd yn derbyn gwasanaethau gofal a chymorth, fel bod modd i unrhyw bobl ifanc berthnasol dderbyn y gefnogaeth angenrheidiol i gael hyd i'w ffordd trwy'r system a chyfranogi'n llawn mewn cyfarfodydd a phenderfyniadau.

Rwy'n pryderu nad yw'r eiriolaeth sy'n cael ei darparu mewn gwasanaethau iechyd yn meddu ar y seilwaith na'r ansawdd angenrheidiol fel mae pethau'n sefyll ar hyn o bryd.

Mae pryderon hefyd ynghylch adroddiadau ac atebolrwydd gwasanaethau eiriolaeth ym maes iechyd. Ar hyn o bryd nid oes darlun dibynadwy o'r niferoedd sy'n cyrchu'r ddarpariaeth eiriolaeth, na chanlyniadau'r defnydd o wasanaethau eiriolaeth, mewn lleoliadau iechyd. Mae gofyn bod y Cynnig Gweithredol ar gyfer eiriolaeth ym maes gofal cymdeithasol yn cael ei gofnodi yn adolygiad cynllun gofal plentyn gan ei Swyddog Adolygu Annibynnol, er enghraifft. Mae'r Dull Cenedlaethol o Ymdrin ag Eiriolaeth Statudol hefyd yn cynnwys gofynion adrodd ynghylch y nifer sy'n manteisio ar y cynnig gweithredol a'r ddarpariaeth eiriolaeth ddilynol.

Ar ben hynny, bydd eiriolaeth yn wasanaeth a reoleiddir o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n darparu'r gwasanaeth yn meddu ar gymwysterau a phrofiad addas, a bod safonau ansawdd eraill, gan gynnwys materion diogelu, yn cael eu cynnal.

Yn achos plant a phobl ifanc sydd angen eiriolaeth, ond nad ydynt yn gymwys i dderbyn darpariaeth statudol, yr opsiwn sy'n debygol o gael ei gynnig iddynt ar hyn o bryd yw'r broses *Gweithio i Wella*, lle cynghorir plant i gysylltu â gwasanaeth MEIC. Gall hwn fod yn wasanaeth llinell ffôn/ar-lein pwysig i blant a phobl ifanc, ond nid yw'n darparu cefnogaeth ar ffurf eiriolaeth wyneb yn wyneb.

Rwy'n awgrymu y dylai'r llywodraeth ystyried o ddifri a oes modd trefnu cynnig eiriolaeth iechyd a gofal cymdeithasol a gomisiynir ar y cyd ar lefel ranbarthol trwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol; neu a yw llifoedd gwaith ar wahân ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio tuag at sicrhau bod cynigion eiriolaeth effeithiol, gweithredol ar gael i blant a phobl ifanc sy'n cyrchu un o'r gwasanaethau neu'r ddau.

Nid yw'n eglur i mi chwaith sut mae'r trefniadau ar gyfer datrys pryderon ac apeliadau yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) yn cyd-fynd â'r trefniadau o dan y Bil hwn.

Dyletswydd Ansawdd a Dyletswydd Didwylledd

Rwy'n croesawu cyflwyno Dyletswydd Ansawdd, a Dyletswydd Didwylledd, yn y Bil hwn. Yn fy ymateb³ i'r papur gwyn *Gwasanaethau sy'n Addas i'r Dyfodol: Ansawdd a Llywodraethu ym maes Iechyd a Gofal yng Nghymru*⁴, fe alwais am ddyletswydd ansawdd a fyddai'n sicrhau bod hawliau ac anghenion y boblogaeth, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn cael blaenoriaeth; a bod mecanweithiau yn eu lle i sicrhau trosolwg ac atebolrwydd yng nghyswllt dyletswydd o'r fath. Rwy'n pryderu nad yw'r Bil yn ei ffurf bresennol yn rhoi llawer o fanylion ynghylch sut bydd elfennau dyletswydd ansawdd a dyletswydd didwylledd yn cael eu monitro'n briodol, heblaw am drwy'r mecanwaith adrodd blynyddol gan Weinidogion, a Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd. Fodd bynnag, rwy'n falch bod cwmpas y swyddogaeth adroddiad blynyddol hwn yn ymddangos yn eang, ac yn welliant ar system flaenorol y CICau.

O ran Dyletswydd Didwylledd, rwy'n croesawu amcan y Bil o osgoi dull amddiffynnol o 'glosio at ei gilydd' pan fydd pethau'n mynd o chwith. Nid oes fawr ddim manylion ar hyn o bryd, fodd bynnag, ynghylch sut bydd Dyletswyddau Didwylledd yn alinio'n ymarferol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Rwyf hefyd yn pryderu bod marc cwestiwn uwchben y diffiniad o'r trothwy 'mwy na'r

³ <https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-02/180226summary-of-responses.pdf>

⁴ <https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-01/170628consultationen.pdf>

niwed lleiaf. Er fy mod i'n ymwybodol bod y memorandwm esboniadol yn amlinellu'r broses o gynhyrchu canllawiau ar gyfer y diffiniad hwn, mae'n bwysig bod y trothwy hwn yn gyd-fynd â'r Ddyletswydd gofal cymdeithasol.

Corff Llais y Dinesydd

Yn fy ymateb i'r Papur Gwyn, fe alwais am ddatblygiadau i gryfhau llais y dinesydd sy'n 'gorfod cynnwys dulliau o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc fel eu bod yn cynnal eu hawl i wneud yr union beth hwnnw'.

Rwy'n pryderu nad yw'r ddeddfwriaeth yn nodi o leiaf rai disgwyladau sylfaenol ynghylch cynrychiolaeth aelodaeth y Corff newydd. Sut mae'r Corff i gael ei fonitro er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu poblogaeth Cymru'n briodol, gan gynnwys cynrychiolaeth ac ymgysylltiad digonol o ran plant a phobl ifanc?

Mae plant a phobl ifanc mewn sefyllfa arbennig o ddi-rym yng nghyswllt cyfranogiad mewn ymarferiadau ymgysylltu â dinasyddion — a hynny oherwydd eu gallu amrywiol i eiriol drostynt eu hunain, ond hefyd o ran teimlo sicrwydd y bydd eu barn yn cael ei chymryd o ddifri wrth gyfrannu at waith sefydliadau fel Corff Llais y Dinesydd.

Mae Corff newydd Llais y Dinesydd yn gyfle gwirioneddol i sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn cael ei glywed, a bod mecanweithiau cynhwysfawr ar gyfer eiriolaeth yn cael eu sefydlu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Erthygl 12 o CCUHP yw hawl plant a phobl ifanc i gael eu clywed ac i gael cymryd eu barn o ddifri. Wrth wneud sylwadau ar berthnasedd erthygl 12 i hawl plant a phobl ifanc i fwynhau'r safon iechyd uchaf y gellir ei chyrraedd (erthygl 24), mae Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn yn egluro bod erthygl 12...

...yn cynnwys barn [plant a phobl ifanc] ar bob agwedd ar ddarpariaethau iechyd, gan gynnwys, er enghraifft, pa wasanaethau sy'n angenrheidiol, sut a ble maen nhw'n cael eu darparu orau, rhwystrau i gyrchu neu ddefnyddio gwasanaethau, ansawdd y gwasanaethau ac agweddau gweithwyr iechyd proffesiynol, sut mae cryfhau capasiti plant i dderbyn lefelau cynyddol o gyfrifoldeb am eu hiechyd a'u datblygiad, a sut mae eu

cynnwys yn fwy effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau, fel addysgwyr cyfoedion. Anogir gwladwriaethau i gynnal ymgynghoriadau cyfranogol rheolaidd, sy'n cael eu haddasu i oed ac aeddfedrwydd y plentyn, ac ymchwil gyda phlant, a gwneud hynny ar wahân gyda'u rhieni, er mwyn dysgu am eu heriau iechyd, eu hanghenion datblygiadol a'u disgwyliadau fel cyfraniad at ddylunio ymyriadau a rhaglenni iechyd effeithiol.⁵

Rwy'n credu ei fod yn bwysig i'r Llywodraeth fod yn eglur ynghylch ei bwriad i'r Corff fod yn wirioneddol gynrychioliadol o'r boblogaeth, a sut mae'n disgwyl i hynny gael ei gyflawni'n unol â Sylw Cyffredinol CCUHP uchod, hyd yn oed os y Corff ei hun fydd yn penderfynu ar elfennau ymarferol y trefniadau hyn. Er ei fod yn galonogol gweld barn Llywodraeth Cymru bod 'strategaeth yn hanfodol i'r corff er mwyn mwyafu ei ymgysylltiad ag aelodau o'r cyhoedd', fel y dadleuwyd yn fy ymateb i'r papur gwyn, dylai grymuso dinasyddion gynnwys ymgysylltu ar faterion y tu allan i'r agenda a bennwyd (gosod eitemau ar yr agenda eu hunain, er enghraifft).

Mae sicrhau bod mecanweithiau ar gyfer atebolrwydd (sef un o bum egwyddor fy fframwaith ar gyfer dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, *Y Ffordd Gywir*⁶) yn eithriadol o bwysig wrth sefydlu Corff Llais y Dinesydd. Nid yw'r Bil yn dweud llawer am sut bydd dinasyddion sy'n ymgysylltu â gwaith Corff Llais y Dinesydd yn gallu gweld yn glir bod eu hymgysylltiad wedi cael ei gymryd i ystyriaeth yn briodol gan y Corff, a chan y sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n destun gwaith y Corff.

Rwy'n pryderu ynghylch y ddarpariaeth o dan adran 16 o'r Bil i eithrio plant a phobl ifanc sydd â mynediad at eiriolwr statudol ar hyn o bryd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 rhag cael cefnogaeth gan gorff Llais y Dinesydd:

Ni chaiff Corff Llais y Dinesydd ddarparu cymorth o dan is-adran (6) i unigolyn os yw'r unigolyn yn gymwys i dderbyn cymorth mewn perthynas â chŵyn trwy rinwedd trefniadau a wnaed o dan adran 178(1)(a) o Ddeddf 2014 (dyletswydd awdurdodau lleol i drefnu cymorth i blant yng nghyswllt sylwadau sy'n dod o dan adran 174 o Ddeddf 2014).

⁵https://tbinternet.ohchr.org/_layouts/15/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRC%2fC%2fGC%2f15&Lang=en

⁶ <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/04/The-Right-Way.pdf>

Er fy mod i'n deall mai safbwynt Llywodraeth Cymru yw eithrio'r grŵp hwn er mwyn peidio â dyblygu darpariaethau sydd eisoes yn bodoli, rwy'n cwestiynu sut mae hynny'n cyd-fynd â'r uchelgais o greu aliniad di-fwlch rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i'r plant a'r bobl ifanc hynny sy'n gymwys i dderbyn eiriolaeth o dan Ddeddf 2014 ond y mae eu hangen am eiriolaeth a chefnogaeth ar gyfer cwynion yn estyn y tu hwnt i'w darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol.

Byddai o gymorth cael rhagor o wybodaeth ynghylch safbwynt cyrff lleol neu ranbarthol presennol a luniwyd i sicrhau bod llais dinasyddion yn dylanwadu ar bolisi, a sut byddai aliniad rhwng y rhain a'r corff newydd. Gallai'r Corff newydd fanteisio ar gyrrff sydd eisoes yn bodoli, cyrff llais y dinesydd yn y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, er enghraifft. Gallai'r Corff newydd weithio hefyd gyda'r byrddau ieuenticid a'r paneli mewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Mae'r cyrff hyn yn ffordd unigryw o gaffael llais cynrychioliadol plant a phobl ifanc sy'n ymwneud â gwaith sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae llwyddiant byrddau ieuenticid a sefydlu'r senedd ieuenticid yn ddiweddar yn dangos yr effaith aruthrol gadarnhaol y gall y cyrff hyn ei chael os cânt gyfle priodol i wneud hynny. Byddai'r dull gweithredu hwn hefyd yn golygu bod manteision dull gweithredu lleol, a welwyd gynt yn y CICau, yn cael eu cynnal o dan y system newydd. Fodd bynnag, mae'n bwysig hefyd bod y Corff newydd yn cymryd camau i sicrhau ei fod yn rhoi sylw i safbwyntiau o bob rhan o Gymru, ac nad yw barn ac ymgysylltiad o rai rhannau o Gymru, sydd o bosib â mecanweithiau mwy datblygedig o ran llais y dinesydd, yn rhy amlwg yng ngwaith y Corff.

Dylai fod gan y Corff newydd bŵer i goladu arbenigedd y grwpiau hyn sydd eisoes yn bodoli i gynrychioli llais y dinesydd, os dyma'r model arfaethedig.

Buasai'n ddefnyddiol i'r Bil roi mwy o gyfarwyddyd ynghylch a yw'n bwriadu i Gorff newydd Llais y Dinesydd gynnwys cynrychiolaeth uniongyrchol, neu a fydd yn gorff canolog sy'n crynhoi barn yr holl gyrrff cynrychioliadol presennol ar draws meysydd iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Asesiad Effaith ar Hawliau Plant

Roeddwn i'n falch o weld bod Asesiad Effaith ar Hawliau Plant (CIA) wedi cael ei gwblhau ar gyfer y Bil hwn. Darparwyd y CIA i'm swyddfa ar gais.

Roeddwn i'n falch o weld cyfeiriad uniongyrchol at erthyglau penodol o CCUHP yn y CRIA hwn, a rhai manylion ynghylch yr effaith gadarnhaol bosibl ar blant a phobl ifanc, er enghraifft:

Bydd y dull gweithredu newydd hwn yn sicrhau cefnogaeth gyson ac unffurf i blant, fel na fydd y cyngor a'r cymorth sydd ar gael iddynt yn dibynnu ar y bwrdd iechyd, yr ymddiriedolaeth neu'r awdurdod lleol sy'n darparu gwasanaethau ar eu cyfer.

Er ein bod ni'n cytuno y byddai'r Bil hwn yn arwain at well cysondeb o ran mynediad at gefnogaeth, o gymharu â'r CICau, fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr ymateb hwn, rydym ni'n dal i bryderu nad yw cynnig eiriolaeth ehangach yn rhan o'r dull gweithredu hwn. Byddai cynnig o'r fath yn cael effaith gadarnhaol ar Hawliau Plant, a fyddai'n cynnwys cyfran fawr o'r boblogaeth plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Er fy mod i'n croesawu cynnal y CRIA, rwy'n pryderu bod y crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil yn nodi'r canlynol:

Mae Asesiad Effaith ar Hawliau Plant wedi dod i'r casgliad na fydd rôl uniongyrchol i'r Bil o ran hybu hawliau plant neu berson ifanc, ac nad oes disgwyl iddo gael unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol. Mae'r CRIA yn amlinellu meysydd lle gellir gwireddu rhai effeithiau cadarnhaol ôl-ddilynol, megis y rhai a all ddeillio o waith Corff Llais y Dinesydd wrth ddarparu cyngor a chymorth yng nghyswllt cwynion i'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd heb hawl statudol i eiriolwr ar hyn o bryd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'n destun siom, er bod y CRIA ei hun yn cyfeirio at sawl effaith gadarnhaol bosibl i blant a phobl ifanc, bod yr unig effaith bosibl o blaid Hawliau yn cael ei disgrifio yn yr Asesiad Effaith Integredig fel rhywbeth 'ôl-ddilynol'. Mae hynny'n achosi braw i mi. Gan nad oes manylion yn y Bil ynghylch sut olwg fydd ar Corff Llais y Dinesydd mewn gwirionedd o ran cynrychiolaeth, rwy'n pryderu bod disgrifiad yr IIA o unrhyw effaith fel rhywbeth ôl-ddilynol yn awgrymu nad yw gwireddu cyfranogiad plant yng Nghorff Llais y Dinesydd o bosib wedi cael ei ystyried yn llawn. Ychwanegir at y pryder hwn gan y diffyg eglurder yn y Bil ei hun ynghylch ble bydd elfennau'n berthnasol i blant a phobl ifanc yn ogystal ag oedolion. Gan fod plant a phobl ifanc yn grŵp arbennig o fregus, ac o ystyried yr hanes o anghysondeb

ynghylch pwy sy'n gyfrifol am gymorth a chyngor ynghylch cwynion (y Cyngor Iechyd Cymuned neu'r Bwrdd Iechyd Lleol), dylai'r Bil hwn wneud mwy i nodi'n benodol ble a sut bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi, a ble a sut bydd plant a phobl ifanc yn medru ymgysylltu â Chorff newydd Llais y Dinesydd. Gallasai asesiad effaith trylwyr amlygu'r materion a amlinellwyd gennyf ffinau yn yr ymateb hwn.

Diwedd glo

Rwy'n croesawu darpariaethau'r Bil hwn i sicrhau gwell aliniad rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn nhermau ansawdd a didwylledd, a sefydlu cyfleoedd newydd i ymgysylltu â dinasyddion trwy Gorff Llais y Dinesydd. Rwy'n falch y dylai cefnogaeth ar gyfer cwynion plant a phobl ifanc gael ei darparu bellach trwy'r Corff cenedlaethol hwn.

Fel yr amlinellwyd uchod, rwy'n pryderu ynghylch y diffyg cyfarwyddyd a roddwyd i'r Corff newydd o ran sicrhau cynrychiolaeth ac ymgysylltiad plant a phobl ifanc a'u hymwneud â chydgyhyrchu. Roedd y Bil hwn hefyd yn gyfle i gymryd camau tuag at gynnig eiriolaeth cynhwysfawr, eang i blant a phobl ifanc, ar draws meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Ond mae'r ffocws cul ar gwynion yn golygu na fanteisiwyd ar y cyfle hwn.

Cyflwynwyd gan:



Yr Athro Sally Holland

Comisiynydd Plant Cymru